**Argymhellion y Tasglu**

1. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio rhestr benodol o sefydliadau i ddod ynghyd yn rhithwir ac i weithredu fel tîm rheoli argyfwng os bydd porthladd yn cau yn y dyfodol.

2. Dylai pob sefydliad a gynrychiolir ar y tasglu ac sy'n dibynnu ar weithrediad Porthladdoedd Cymru adolygu unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd ganddynt ac ystyried eu cyfraniad posibl yn achos cau porthladd yn y dyfodol, gan gynnwys cydweithio a chryfhau cyfathrebu a gytunwyd.

3. Bydd gweithredwyr porthladdoedd a fferïau yn ailgadarnhau eu hymrwymiad i barhau i gyfathrebu â'r llywodraeth a rhanddeiliaid am unrhyw faterion gweithredol – gan gynnwys gwaith cynnal a chadw – a allai effeithio ar gyfaint Môr Iwerydd ar lwybrau Iwerddon-Cymru, mewn modd agored ac amserol.

4. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun porthladdoedd a morwrol, cludo nwyddau a logisteg cyn diwedd tymor y Llywodraeth. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd hefyd yn sefydlu cyngor cludo nwyddau (Bydd y Cylch Gorchwyl ac aelodaeth yn cael eu dosbarthu maes o law) a bydd gwaith mapio safleoedd lorïau ar gyfer Cymru yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

5. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion y sectorau a gynrychiolir ar y Tasglu yn cael eu hystyried fel rhan o'i gwaith gwydnwch ar goridor A55, A494 a'r M4.

6. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu amserlenni ar gyfer cynnydd gwaith ar wydnwch Croesfannau'r Fenai ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am welliannau posibl i'r A55, gan weithio gyda phartneriaid trafnidiaeth rhanbarthol i ddeall pa welliannau pellach y gellid eu gwneud i'r A40/A477.

7. Bydd Llywodraeth Cymru, y Pwyllgorau Cydweithredol Corfforaethol a'r awdurdodau lleol yn cydweithio i fireinio a gwella trefniadau stacio mewn achosion lle mae problemau mewn porthladdoedd gan gynnwys ystyried yr effaith ar gymunedau lleol. Byddant hefyd yn archwilio rôl Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i gefnogi'r trefniadau hyn.

8. Cyn gweithredu strategaeth yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru a gweithredwyr porthladdoedd yn cydweithio i ystyried atebion interim ar gyfer anghenion lles gyrwyr sy’n gaeth neu mewn trefniadau stacio oherwydd cau porthladd, a chyflwyno’r ddarpariaeth lles honno.

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydlynu gyda Thîm Gwydnwch Morwrol Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU i sicrhau bod pwysigrwydd llwybrau’r Môr Iwerydd yn cael ei gydnabod.

10. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio derbyn adborth bendant gan asiantaethau Llywodraeth y DU megis Border Force ar unrhyw wersi a ddysgwyd yn dilyn cau porthladd Caergybi ac yn rhannu’r wybodaeth yn briodol.

11. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyfarfod â swyddogion trafnidiaeth Llywodraeth Iwerddon bob chwe mis yn benodol i drafod porthladdoedd.

12. Trwy ei bresenoldeb yn Nulyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid sydd wedi’u lleoli yn Iwerddon gan gynnwys Irish Ferries a Chymdeithas Allforwyr Iwerddon.

13. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymo i weithio gyda asiantaethau bartneriaethol ar draws y DU ac Iwerddon megis Rhanbarth Dinas Lerpwl, Trafnidiaeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a’r Swyddfa Datblygu Morwrol Iwerddon i gyflwyno ymateb cyson a chydlynol i gau unrhyw borthladd sy’n wynebu’r Môr Iwerydd gyda chyfleusterau RORO.

14. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i berchnogion pob argymhelliad am ddiweddariad ar y pwynt chwe mis neu ychydig cyn cyfnod cyn- etholiadol ac yn rhoi adborth i aelodau’r Tasglu a’r Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd.

15. Bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o’n hymgysylltiad parhaus â Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid lleol eraill, yn ystyried sut y mae partneriaid yn casglu gwybodaeth yn amserol i ddeall yn well yr effaith ar weithwyr a busnesau yn achos cau porthladdoedd yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â Llywodraeth Iwerddon a'r Siambr Fasnach Gorllewin Swydd

Gaer a Gogledd Cymru ynghylch ei werth i'r gymuned. Bydd y gwaith hwn yn ystyried natur fasnachol gweithredwyr porthladdoedd ac yn ystyried y cyfraniadau a wnaed gan aelodau yn ystod cyfarfod y Tasglu ar Gaergybi. Cyn bo hir, bydd Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi rhywfaint o ddadansoddiad o ddata gwariant cardiau yn ardal porthladd Caergybi a'r cyffiniau yn ystod y cyfnod pan oedd y porthladd ar gau. Bydd hyn yn cael ei gymharu â blynyddoedd blaenorol pan oedd y porthladd ar agor, yn ogystal â phorthladdoedd eraill yn y DU lle credwn y gallai gweithgaredd fod wedi symud iddynt yn dilyn cau porthladd Caergybi.